

**Gwirioni ar Gymraeg!**

Pedwar mis yn ôl, symudodd teulu o Tamworth i fyw i Lanbedr. Mae Katie, y ferch, wedi bod yn dysgu Cymraeg yn y Ganolfan Iaith ym Mhorthmadog ers wyth wythnos. Mae hi'n rhugl erbyn hyn! Mae hi wrth ei bodd yn siarad Cymraeg ac yn falch iawn o'i hiaith a'i gwlad newydd. Llongyfarchiadau mawr iddi.

Dyma air gan Katie:

Helo! Katie Hixson ydw i a dw i'n un deg tri oed. Dw i'n byw yn Llanbedr rŵan ond roeddwn i'n byw yn Tamworth yn Lloegr. Dw i'n mynd i Ysgol Ardudwy yn Harlech ond dw i wedi bod yn dysgu Cymraeg yn y Ganolfan Iaith ym Mhorthmadog. Dw i'n hoffi siarad Cymraeg hefo fy ffrindiau ac ysgrifennu yn Gymraeg. Dw i'n ymarfer siarad Cymraeg hefo'r cwsmeriaid yn siop fy modryb yn Llanbedr. Rŵan, dw i'n gallu siarad dwy iaith - Cymraeg a Saesneg - a dw i wrth fy modd.